# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA
## COFNODION CYFARFOD IONAWR 2022

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fercher, 19eg o Ionawr, 2022** |
| **AMSER** | **7.00yh Cyfarfod misol y Cyngor** |
| **LLEOLIAD** | **Aml leoliad - Clwb Mountain Rangers - Teams** |
| **CADEIRYDD** | **Jason Hunt** |

| | |
|---|---|
| 1. | **CROESO** |
| | Nid oedd posib i'r Cadeirydd fynychu'r cyfarfod heno oherwydd pwysau gwaith.<br>Cadeiriodd yr Is-gadeirydd Pete Roberts yn ei lef, croesawodd pawb i'r cyfarfod a diolchodd I Fair Williams a Dylan Herbert am fynychu ar drafodaeth 5(a) ac 5(b)<br><br>**Yn bresennol w.y.w:** Nerys Evans (NE), Gwilym Williams (GW), Gwilym Thomas (GT), Tom Ellis (TE), Alan Hughes (AH), Michelle Williams (MW), a Gillian Wynne Thomas (Clerc).<br><br>**Yn bresennol ar lein:** Elin Evans (EE), Huw Rowlands (HR). |
| 2. | **YMDDIHEURIADAU** |
| | Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Jason Hunt (JH) ac Aeron Jones (AJ). |
| 3. | **DATGAN BUDDIANT** |
| | Dim wedi ei ddatgan. |
| 4. | **CADARNHAU COFNODION TACHWEDD 2021 A MATERION YN CODI** |
| | **Cynigwyd cofnodion Tachwedd 2021 yn gywir gan AH gyda TE yn eilio a phawb yn cytuno.**<br><br>Cynnigwyd gywirdeb gan EE. Nid yw yn gynrychiolaeth ar Lywodraethwyr Ysgol Syr Hugh Owen ers rhai blynyddoedd.<br><br>**a)** <u>RHEILIAU DIOGELWCH CAE CHWARAE RHOSGADFAN</u><br>Oherwydd salwch a gwyliau nid oedd posib symud ymlaen i drefnu cyfarfod gyda Ian Morgan. Y clerc i geisio ail drefnu.<br><br>b) <u>CYLCHFAN FINGER POST</u>.<br>Adroddodd y Clerc ei bod wedi gyrru cwyn ymlaen i'r Llywodraeth ar yr 18.11.21 - nid oedd wedi derbyn dim gohebiaeth nac adborth yn ôl.<br><br>**c)** <u>BINIAU HALEN WARD LLANWNDA</u><br>Adroddodd y clerc ei bod wedi derbyn addewid gan Ian Morgan fydd y Cyngor Sir yn paratoi'r biniau halen sydd wedi torri gan nad oedd y Cyngor Cymuned wedi ei mabwysiadu yn flaenorol. Ni fydd pob un sydd |


*Clerc Cyngor Cymuned Llanwda Community Council Clerk* *Ffon / Tel: 07979 438 307*
*1 Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon, Gwynedd LL54 7HP* *E.bost / E.mail: clercllanwnda@yahoo.co.uk*

wedi diflannu na thorri yn cael ei ail lleoli. Maent yn bwriadu defnyddio'r peiriant bach i raenu rhai lonydd fel Lôn Llwyn Onn ac uwchben Dreflan, felly ni fydd y rhain yn cael ei ail sefydlu.
Y clerc i holi clerc Llandwrog af fin halen dop allt Capel Bryn.

d) **CRICIETH CREADIGOL AR Y RHESTR FER AR GYFER GWOBRAU BYWYDAU CREADIGOL 2021**
Gyrrwyd cefnogaeth y Cyngor ar y 18/11/21

e) **AROLWG ADRAN 47 CYFARFODYDD AML-LEOLIAD**
Atebwyd yr arolwg ar y 18/11/21

**f) AH - LLIFOGYDD O ROSTRYFAN I FFRWD CAE DU**
Y clerc wedi danfon cais i'r Cyngor Sir wneud asesiad rheolaidd a darparu unrhyw waith sydd ei angen i osgoi llifogydd pellach.

**a) AH - CWYN AM GERRIG YN ARBED CERDDWYR DDEFNYDDIO GIATIAU AR LWYBR BRYN GWYN**
Roedd y clerc wedi trafod y mater gyda Roberts Wyn Jones o'r adran Llwybrau. Rhoddodd wybod bod Gerallt wedi ymddeol yn ddiweddar a llawer i fater wedi cael ei anghofio yn ystod ei wyliau cyn ymddeol. Bydd yn trafod y mater gyda pherchennog y tir. Rhoddodd wybod hefyd bydd yn hwyluso'r perchennog i wneud cais am grant gan y Cyngor Sir I atgyweirio y rhan o'r llwybr sydd mewn cyflwr drwg ar ei dir ac sydd yn flaenorol wedi ei drafod mewn cyfarfod.

**g) FANIAU YN PARCIO YN BERYG GER 3 A 4 BRO WYLED RHOSTRYFAN**
Y gwyn wedi ei adrodd i'r Cyngor Sir - derbyniwyd ymateb bydd y safle yn cael ei arolygu gan swyddog priodol.
Ychwanegodd AH bod llinellau melyn wedi ei gosod ond bod modurwyr yn parhau i barcio arnynt. Y clerc i yrru'r sylwadau ymlaen.

**h) GW – BRIGAU COED YN CREU MATERION DIOGELWCH YN HONGIAN O DIR TAI'R ONNEN, RHOSISAF**
Derbyniwyd addewid gan Steven Williams fydd yn gwneud asesiad ac yn cysylltu â'r perchennog gyda gobaith bydd y gwaith yn cael ei gynnal yn fuan.

**i) YMHOLIAD ARCHEBU LLECYN O DIR I FYNWENT CEFNFAES**
Nodwyd bod y clerc wedi ceisio gwneud cyswllt droeon gyda pherchnogion y tir ac wedi gadael negeseuon iddynt gysylltu.
Y clerc i ofyn i'r cyn clerc am adborth Gofyn I Bethan am gyfeiriad - ffonio carter jonas a gofyn pwy di asiant

**j) AH / JH – MODURWYR A CHAM DDEFNYDD O BONT BRO GILBERT**
Derbyniwyd gwynion pellach yn y dyddiau diwethaf gan AH a fidio gan JH o gar yn amlwg yn gyrru oddi ar y bont.
Gan fod y mater yn gŵyn cyfredol, adroddodd y clerc ei bod nawr wedi gyrru ymlaen I Iwan Ap Trefor ac wedi copïo Dafydd Gibbard I'r e-bost Roedd yn flaenorol wedi cyfeirio'r cais ymlaen I Adran Priffyrdd, Trafnidiaeth a Bwrdeistrefol heb hwyl.
Gyrrwyd ymlaen hefyd I Rhian Wyn Williams sef Rheolwr Uned Trafnidiaeth Integredig a Diogelwch Ffyrdd.

k) **AH - LON LLWYN ONN, Rhostryfan**
Adroddodd y clerc ei bod wedi derbyn cadarnhad bellach bod y gwaith i atgyweirio wyneb Lôn Llwyn Onn ar y rhaglen waith gan y Cyngor Sir I'w gyflawni yn fuan.

Llofnodwyd gan ……………………………………………………………… Dyddiad ………………………………………………………

*Clerc Cyngor Cymuned Llanwnda Community Council Clerk* *Ffon / Tel: 07979 438 307*
*1 Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon, Gwynedd LL54 7HP* *E.bost / E.mail: clercllanwnda@yahoo.co.uk*

| | |
|---|---|
| 5. | **MATERION MISOL** |
| | **a) <u>PROSIECT IECHYD A LLES DYFFRYN NANTLLE – MAIR EDWARDS</u>**<br>Cyflwynwyd adroddiad gan Fair Edwards adroddiad ac esboniad am gostau, lleoliad, pwrpas a'r broses yn ogystal ag eglurhad i gwestiynau'r aelodau. Croesawyd y wybodaeth a diolchodd yr aelodau am ei ffresenoldeb.<br><br>**b) <u>SP ENERGY NETWORKS – DYLAN HERBERT</u>**<br>Cyflwynwyd adroddiad ac esboniad am doriadau i bŵer trydan yn y Ward gan Dylan Herbert yn ogystal ag eglurhad i gwestiynau'r aelodau. Croesawyd y wybodaeth a diolchodd yr aelodau am ei bresenoldeb.<br><br>**c) <u>PRAESEPT 2022/23</u>**<br>Wedi ystyried ymrwymiadau a chostau arfaethedig cytunodd y Cyngor godi'r Praesept 1.5% I £29.300 am y cyfnod 2022/23.<br>Y Clerc i hysbysu'r Cyngor Sir.<br><br>**d) <u>YSWIRIANT Y CYNGOR</u>**<br>Rhannwyd costau tymor 2022/2023 ac Amserlen Polisi Yswiriant I'r aelodau i'w derbyn.<br>Cytunwyd eu cywirdeb - y clerc i weithredu tal.<br><br>**e) <u>SAFLE BWS RHOSGADFAN</u>**<br>Esboniodd y clerc bod difrod dychrynllyd wedi digwydd i gysgodfa bws Rhosgadfan a hysbysfwrdd Rhostryfan yn dilyn Storm Arwen. Adroddodd bod y Cyngor Sir wedi bod ar safle'r gysgodfa ac wedi sicrhau'r gysgodfa. Derbyniwyd cyfarwyddiadau i gysylltu ag Wyn Williams I adnewyddu'r ddau gan mae ef oedd wedi eu gosod ac mewn cyswllt gyda'r darparwyr.<br>Gofynnodd WW am adborth yr aelodau parthed yr hysbysfwrdd gan nad oedd posib adnewyddu'r un cyfredol - cytunwyd i leoli un metal yn ei lef.<br>Disgwyli'r adnewyddu'r gysgodfa ar ôl iddo dderbyn y partiau perthnasol.<br><br>f) **<u>AH – JEN TOWHILL – BIRD HIDE Y FORYD</u>** - https://containersandmore.co.uk/innovative-bird-hide-design/<br>Cytunodd AH gyfarfod a Jen Townhill I drafod y mater yn ystod y mis. Esboniodd bod y gysgodfa wedi ei fandaleiddio yn ddiweddar ac wedi cael ei llosgi. Rhannodd wybodaeth mae'r bwriad yw ail sefydlu cysgodfa agored fydd yn arbed difrod yn y dyfodol.<br>Y clerc i ail gysylltu i ofyn am wybodaeth bellach. |
| 6. | **DERBYN ADRODDIADAU** |
| | Gweler 5(a) a 5(b) |
| 7. | **MATERION CYNLLUNIO** |
| | a) **RHIF CAIS/APP REF: C21/1176/24/LL -** Tir Gyferbyn a Maes Parcio Ger Cefn Yr Ysgol, Rhostryfan, LL54 7LR - <u>Dilyn a Darganfod</u> - Cais adolygol i gadw'r ardal barcio at ddefnydd ysgol Rhostryfan a chymuned ehangach Bro Gilbert, Rhostryfan yn ogystal â chreu llwybr troed wedi'i rampio o'r maes parcio i gefn y caeau chwarae a'r parc ger yr Ysgol.<br>Cytunodd yr aelodau yrru cefnogaeth i'r cais.<br><br>b) **RHIF CAIS/APP REF: C21/1229/24/DT -** Bron Wylfa, Llandwrog, Caernarfon, Gwynedd, LL54 5TL – <u>Dilyn a Darganfod</u> - Cais ar gyfer codi lolfa haul<br>Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad - y clerc i adrodd i'r Cyngor Sir. |

Llofnodwyd gan ……………………………………………………………… Dyddiad ………………………………………………………

| | |
|---|---|
| | c) **RHIF CAIS/APP REF: C20/0568/24/LL -** Tyddyn Madyn, Rhos Isaf, Caernarfon, Gwynedd, LL54 7NN – Dilyn a Darganfod - Adeiladu stablau ac arena marchogaeth ceffylau.<br>Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad - y clerc i adrodd i'r Cyngor Sir. |
| 8. | **MATERION ARIANNOL** |

**a) CYSONIAD**

Adolygwyd a chymeradwywyd y cysoniad banc ar gyfriflen proffid a cholled.

**b) DATGANIADAU BANC**

**Cyfrif Cyfredol - 29 o Hydref 2021 - 28 o Ragfyr 2021**

| **BALANS CYCHWYN -** | | **£4,302.50** |
|---|---|---|
| **RHIF SIEC** | **TALIADAU** | **DERBYNIADAU** |
| 101634 | **575.00** | |
| 101636 | **2,557.50** | |
| 101635 | **50.00** | |
| Claddedigaeth | | **240.00** |
| 101701 | **575.00** | |
| **BALANS CAU –** | | **785.00** |

**Cyfrif Cadw - 28 o Hydref 2021 - 29 o Ragfyr 2021**

| **BALANS CYCHWYN -** | **£73.339,90** |
|---|---|
| | **DERBYNIADAU** |
| | 1.83 |
| **BALANS CAU** | **73.341.73** |

**c) TALIADAU I'W CYMERADWYO**

Cymeradwywyd cyflog a threuliau Rhagfyr y clerc (siec rhif 101701) yn dilyn cytundeb yr aelodau.
Cytunwyd cymeradwyo siec 101639 mlaen llaw. Y siec i'w danfon unwaith bydd y gwaith wedi ei gwblhau.

| | | |
|---|---|---|
| 101637 | Cyflog a threuliau Clerc | **575.00** |
| 101638 | Zurich Municipal | **1608.40** |
| 101639 | Wyn Williams (atgyweirio cysgodfan) | **1,571.00** |

| | |
|---|---|
| 9. | **GOHEBIAETH** |

a) **YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS: CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL DRAFFT - SAFLE TREFTADAETH Y BYD TIRWEDD LLECHI GOGLEDD-ORLLEWIN CYMRU**

Croesawyd y wybodaeth - ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau i'w gweithredu.

Llofnodwyd gan ........................................................................ Dyddiad ...........................................................................

| | |
|---|---|
| | b) **<u>AROLWG PROBLEMAU CARTHFFOSIAETH LEOL</u>**<br>Croesawyd y wybodaeth - ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau i'w gweithredu.<br><br>c) **<u>DIGWYDDIADAU ECONOMI YMWELD CYNALIADWY 2035 - GWEITHDAI ZOOM AR 27 IONAWR 2022 @2:30YP A 7 CHWEFROR 2022 @ 4:00YH</u>**<br>Croesawyd y wybodaeth - ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau i'w gweithredu.<br><br>**d)** **<u>BWLETIN NEWYDDION UN LLAIS CYMRU</u>**<br>Croesawyd y wybodaeth - ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau i'w gweithredu.<br><br>**e)** **<u>YMGYNGHORIADAU HOLLBWYSIG AR AIL DAI A CHYMUNEDAU CYMRAEG</u>**<br>Croesawyd y wybodaeth - ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau i'w gweithredu.<br><br>**f)** **<u>REF 3282401 - GWYNEDD COUNCIL (FOOTPATH NO. 161 IN THE COMMUNITY OF LLANWNDA) MODIFICATION ORDER 2021</u>**<br>Y clerc i ofyn am adborth os bydd rhaid ail leni'r wybodaeth a yrrwyd yn flaenorol |
| 10. | **MATERION LLEOL** |
| | a) **<u>GT - DWR YN LLIFO RHWNG CADFAN ISAF A TYN CADFAN RHOSGADFAN</u>** -<br>Adroddodd GT bod rhwystrad yn y draen un ochor i'r lon - Y clerc i weithredu cwyn i'r Cyngor Sir.<br><br>b) **<u>GT - PEN FFORDD, RHOSGADFAN</u>** –<br>'Wearing coat' ar y gyffordd ger Pen Ffordd a Chae Chwarae Trem y Don, Rhosgadfan wedi gwisgo yn ofnadwy - y clerc i weithredu cwyn i'r Cyngor Sir.<br><br>**c)** **<u>NE - FYNWENT RHOSGADFAN</u>**<br>Adroddodd NE ei bod wedi derbyn cwynion ar ran Pwyllgor y Fynwent am gyflwr Mynwent Rhosgadfan. Roedd y rhain yn cynnwys cwynion am eiddew a drain yn rhedeg ar hyd y wal ac wrth gefn y cerrig ac yn eu hansefydlu yn ogystal â gwair wedi gordyfu ac yn dal dŵr. Eglurodd bod rhaglen cynnal y Fynwent yn hollol ddibynnol ar roddion sydd yn anffodus wedi gostwng ar hyd y blynyddoedd. Nodwyd erbyn hyn bod rhaglen cynnal a chadw blynyddol yn costio llawer mwy na derbynion sydd yn cael ei derbyn yn flynyddol, amcangyfrifodd ni fydd cronfa yn bodoli mewn 5 mlynedd - cytunodd yr aelodau gysidro cais am nawdd fis Mawrth.<br><br>**d)** **<u>GW - LLWYBR GER Y TAI NEWYDD YN NINAS</u>**<br>Adroddodd GW bod llwybr wedi ei sefydlu wrth y tai newydd yn Ninas ac nid oedd yn amlwg beth oedd ei bwrpas. - Y clerk i wneud ymholiadau.<br><br>e) **<u>EE - SBWRIEL YN NINAS</u>**<br>Adroddodd EE bod y sbwriel ar hyd y lon bellach wedi mynd allan o reolaeth yn y gymuned er gwaethaf ymdrechion y tîm cymunedol. – Awgrymodd bod angen biniau ychwannegol yn Ward – Y clerc i wneud ymgoliadau i'r Cyngor Sir. |
| 11. | **CYFARFOD NESAF Y CYNGOR** |
| | Cyfarfod aml leoliad o Glwb Mountain Rangers, Mawrt 16, 2022 am 7y.h. |


*Clerc Cyngor Cymuned Llanwda Community Council Clerk* *Ffon / Tel: 07979 438 307*
*1 Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon, Gwynedd LL54 7HP* *E.bost / E.mail: clercllanwnda@yahoo.co.uk*